

Ymddygiad Dieithrio Mewn Anghydfod Magu Plant ar ôl Gwahanu

Julie Doughty, Nina Maxwell a
Tom Slater

Brîff Ymchwil CASCADE

Rhif 11: Mehefin 2019



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant



ExChange

Building Better Social Care
in Wales
Adeiladu Gofal Cymdeithasol
Gwell yng Nghymru



School of
Social Sciences
Ysgol y Gwyddorau
Cymdeithasol





Ymddygiad Dieithrio Mewn Anghydfod Magu Plant ar ôl Gwahanu

Julie Doughty, Nina Maxwell a Tom Slater

Mae'r briff hwn yn amlygu negeseuon o adolygiad o ymchwil ryngwladol a'r gyfraith achosion berthnasol yng Nghymru a Lloegr, a gyflawnwyd gan CASCADE, gweithwyr cyswllt i Cafcass Cymru, ac a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018. I gyd-fynd â hynny ceir cyfeiriadau at ymchwil a gyhoeddwyd yn fwy diweddar. Mae'r holl gyfeiriadau yn rhai mynediad agored. Mae'r briff wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer ymgynghorwyr llysoedd teulu Cafcass Cymru a gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am ysgrifennu adroddiadau o dan adran 7 o Ddeddf Plant 1989.

Negeseuon allweddol o ran polisi ac ymarfer

- Mae llysoedd teulu yng Nghymru a Lloegr yn dilyn egwyddorion hawliau dynol a deddfwriaeth er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod plant yn cynnal perthynas barhaus gyda'u dau riant, lle mae hynny'n ddiogel. O dan Ddeddf Plant 1989, mae disgwyl y bydd rhieni'n cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau bod cyswllt yn gweithio er budd y plentyn, er nad oes rhagdybiaeth gyfreithiol y dylai pob plentyn dreulio amser gyda'r rhiant sydd ddim yn byw gyda nhw.
- Er bod nifer bach o anghydfodau rhwng rhieni yn cynnwys honiadau ynghylch dieithrio rhieni, nid oes diffiniad cytunedig cyffredinol o 'dieithrio rhieni' na chwaith sylfaen ddibynadwy o dystiolaeth ar gyfer y term. Mae hynny'n golygu ei fod yn anodd i ymarferwyr ddelio gyda honiadau neu awgrymiadau o ddieithrio rhieni y gallant ddod ar eu traws yn eu gwaith achosion.
- Mae polisi Llywodraeth Cymru (2018) yn mabwysiadu dull gweithredu plentyn-ganolog, gan gydnabod y gall rhai mathau o ymddygiad sy'n gysylltiedig ag un rhiant yn dieithrio'r llall o fywyd plentyn gael effaith ar lesiant plant.
- Gall arwyddion ymddygiad dieithrio amrywio o danseilio cyfathrebu a sarhau'r rhiant arall yn anuniongyrchol neu o flaen y plentyn, i wneud honiadau ffug a phortreadu'r rhiant arall fel rhywun peryglus heb gyfiawnhad.
- Lle ceir bod ymddygiad dieithrio'n bodoli, mae angen asesu'r effaith ar y plentyn; gall risg y niwed amrywio o golli perthynas gydag un rhiant i'r effeithiau ar lesiant y plentyn lle gwnaed honiadau ffug.

CASCADE

Research Briefing

Rhif 11: Mehefin 2019



- Gall y risg hirdymor i'r plentyn os bydd un rhiant yn tanseilio neu'n methu cefnogi'r berthynas â'r rhiant arall alw am gefnogaeth gwaith cymdeithasol.
- Os bydd llys yn canfod ymddygiad dieithrio sy'n gyfystyr â risg niwed emosiynol (nad yw'n cyrraedd niwed sylweddol), mae'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer ansawdd ac effeithiolrwydd ymyriadau seicotherapiwtig yn gyfyngedig iawn, ac mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol y dylid trin y rhain yn wylriadwrus.
- Ar unrhyw adeg, dylid cyfeirio honiadau ynghylch ymddygiad dieithrio sy'n gyfystyr â niwed sylweddol at yr awdurdodau lleol o dan y gweithdrefnau arferol.
- Er bod dieithrio rhieni wedi cael ei wrthod fel 'syndrom' gan y llysoedd yng Nghymru a Lloegr, mae'r llysoedd yn cydnabod y gall ymddygiad dieithrio ddigwydd, a defnyddir y term 'dieithrio rhieni' yn achlysurol mewn dyfarniadau llys.
- Mae'r uwch farnwriaeth wedi rhoi arweiniad, lle ceir honiadau o ymddygiad dieithrio neu wrthod cyswllt heb gyfiawnhad, y dylai'r llys ystyried a yw canfod ffeithiau'n ofynnol. Os yw'r mater yn codi fel rhan o'r adroddiad adran 7, dylid cyfeirio hynny at y llys er mwyn canfod y ffeithiau cyn gynted â phosibl.
- Mae angen i awduron adroddiadau adran 7 deimlo'n hyderus wrth ofyn am wrandawriad ynghylch canfod ffeithiau neu ystyried penodi gwarcheidwad o dan Reolau Achosion Teulu 16.4, lle bo hynny'n briodol, yn gynnar.
- Lle disgwylir canlyniad ymarferiad canfod ffeithiau gan y llysoedd, dylai adroddiadau gwaith cymdeithasol ystyried a chynghori ar gyfer ystod o orchmynion ar y sail y gallai'r llys ganfod bod honiadau'n wir, yn rhannol wir, neu ddim yn wir. Mae'r argymhellion mewn adroddiad lles adran 7 yn dibynnu ar y penderfyniad barnwrol ynghylch pa ffeithiau a brofwyd.
- Er bod cysyniad gwreiddiol dieithrio rhieni yn rhagdybio gwrthod perthynas a fu gynt yn dda heb gyfiawnhad, gwneir honiadau dieithrio nawr hefyd mewn rhai achosion lle nad oedd plant yn adnabod y rhiant oedd ddim yn byw gyda nhw, neu lle mae cam-drin domestig dan sylw.
- O ganlyniad, gall y llys fod yn ymchwilio i honiadau o gam-drin o dan Gyfarwyddyd Ymarfer 12J (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017) ochr yn ochr ag ymchwilio i honiadau ynghylch dieithrio). Lle mae honiadau o'r fath yn cyd-ddigwydd, mae'n hanfodol canfod yn gynnar unrhyw ffactorau a allai arwain at blentyn yn gwrthod rhiant.

CASCADE

Research Briefing

Rhif 11: Mehefin 2019



Yr Adolygiad Ymchwil - Doughty, Maxwell a Slater, 2018.

Cynhaliwyd adolygiad o ymchwil ryngwladol a chyfraith achosion berthnasol yng Nghymru a Lloegr ar ran Cafcass Cymru. Canfu'r adolygiad fod y rhan fwyaf o ymchwil ar ddieithrio rhieni yn cael ei gynnal gan nifer bach o awduron sy'n canolbwyntio ar drafodaethau ynghylch ei fodolaeth a'r diffiniad ohono, yn hytrach nag astudiaethau empirig. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn tueddu i ddod o hanesion bychain neu rai ôl-gyrchol dethol, nad ydynt yn rheoli effaith ffactorau eraill, a lle methir sefydlu perthynas achosol rhwng dieithrio rhieni a'r canlyniadau i'r plentyn. Er bod tuedd i'r achosion hyn ymwneud â phlant a phobl ifanc hŷn, mae diffyg ymchwil gyda phlant eu hunain am eu profiadau ac i ba raddau mae modd i'w lleisiau gael eu clywed a'u cymryd i ystyriaeth. Ymhellach, mae diffyg tystiolaeth gan weithwyr proffesiynol mewn lleoliadau ymarfer a llys ynghylch gweithredoli a deall y term. Er nad oes diffiniad pendant o ddieithrio rhieni, canfu'r adolygiad fod cytundeb cyffredinol ei fod yn cyfeirio at:

wrthod un rhiant heb gyfiawnhad, ac ochri gyda'r rhiant arall, a nodweddir gan agwedd eithriadol negatif plentyn at y rhiant a ddieithriwyd oherwydd camau bwriadol neu anfwriadol y rhiant a greodd y dieithrio.

Fodd bynnag, mae penderfynu ar wrthod heb gyfiawnhad yn achosi problem. Gwaethygir hynny gan benderfynyddion lluosog dieithrio rhieni, gan gynnwys ymddygiad a nodweddion y rhiant sy'n dieithrio, y rhiant sy'n cael ei ddieithrio, a'r plentyn. Mae peth cytundeb cyffredinol ynghylch bodolaeth ymddygiad dieithrio, sydd wedi arwain at ddatblygu sawl mesur a phrawf ar gyfer dieithrio rhieni, ond nid oes sicrwydd ynghylch eu dibynadwyedd a'u dilysrwydd. Mae'r ymyriadau hyn yn canolbwyntio ar ddulliau seico-addysgiadol o weithio gyda phlant a rhieni, ond nid ydynt wedi cael eu gwerthuso'n annibynnol i bennu eu heffeithiolrwydd. Dylid nodi bod y rhan fwyaf o'r ymchwil yn dod o UDA a Chanada, lle mae'r amgylcheddau cyfreithiol a seicotherapiwtig yn wahanol iawn i'r hyn a geir yng Nghymru a Lloegr.

Datgelodd canfyddiadau o gyfraith achosion mai mewn nifer bach iawn o achosion llys yr adroddwyd amdanynt yng Nghymru a Lloegr y soniwyd am ddieithrio rhieni. Ymhellach, nid ymddengys bod gwahaniaeth clir rhwng 'dieithrio rhieni' a chyfeiriadau at 'elyniaeth anghymodlon' (term a ddefnyddir yn ehangach yng Nghymru a Lloegr ac sy'n cyfeirio at achosion gyda lefel uchel o wrthdaro lle gall un rhiant fod yn elyniaethus neu'n amharod i'r rhiant arall fod mewn cysylltiad â'r plentyn). Er yr ymddengys bod cyfradd yr achosion sy'n arwain at orfodi trefniadau cyswllt yn isel, nid yw'r data hyn yn cael eu mesur fel mater o drefn.

CASCADE

Research Briefing

Rhif 11: Mehefin 2019



Datblygiadau diweddar

Dangosodd astudiaeth fawr o achosion llys yng Nghanada (Neilson, 2018), lle derbynnid y ddamcaniaeth ynghylch dieithrio rhieni, fod ffocws ar roi'r bai am y gwrthdaro rhwng rhieni ac ar ymdrechion i atgyweirio, adfer neu hyd yn oed greu perthynas newydd rhwng plant a rhieni nad oeddent yn byw gyda nhw (tadau fel arfer) - yn hytrach na llunio dadansoddiad plentyn-ganolog o'r perthnasoedd presennol, galluoedd rhianta pob parti, ac anghenion a buddiannau'r plentyn. Mae hyn yn awgrymu y gall ymdrechion i labelu anawsterau wrth addasu i drefniadau ar ôl gwahanu fel dieithrio rhieni fod yn anghydnaws â lleihau'r straen ar blant a'u helpu i fod yn gydnherth.

Cyflwynodd y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol ddatganiad ar 1 Mai 2018 yn nodi mai polisi Llywodraeth Cymru (2018) oedd hybu rhianta cadarnhaol a lleiafu effeithiau niweidiol rhieni'n gwahanu ar blant; a bod modd delio'n briodol gydag ymddygiad dieithrio trwy ddefnyddio rhaglenni cymorth i deuluoedd a rhianta sydd eisoes yn bodoli, a fframweithiau rheoliadol a chyfreithiol.

Adroddodd astudiaeth o ddioddefwyr cam-drin domestig yn Lloegr (Birchall a Choudhry, 2018) fod rhai rhieni nad oeddent yn byw gyda'r plant yn defnyddio theorïau dieithrio rhieni i egluro pam roedd eu plant yn amharod i gael trefniadau cyswllt. Soniodd rhai o'r cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon am beidio â chael eu credu yn y llys wrth sôn am gamdriniaeth, ac yna cael eu cyhuddo o ddieithrio yn dilyn hynny.

Yn dilyn ymgynghori eang, cyhoeddodd Cafcass yn Lloegr Fframwaith Asesu Effaith ar y Plentyn (CIAF) sy'n cynnwys arweiniad ac offer i asesu ffactorau achos, gan gynnwys plentyn sy'n gwrthod neu'n gwrthwynebu treulio amser gydag un o'r rhieni; gall hynny fod o ganlyniad i amrywiaeth o resymau y gellir eu cyfiawnhau neu gallai fod yn arwydd bod y plentyn wedi gwrthod un rhiant heb gyfiawnhad.



Manylion Pellach

Cyfeiriadau:

Birchall, J. a Choudhry, S. 2018 “*What about my right not to be abused?*” *Domestic abuse, human rights and the family courts*. Ar gael yn: <https://www.womensaid.org.uk/research-and-publications/domestic-abuse-human-rights-and-the-family-courts/> Cyrchwyd: 20.01.19

Cafcass (Lloegr) 2017. *Resources for assessing child refusal/resistance – Child Impact Assessment Framework (CIAF)*. Ar gael yn: <https://www.cafcass.gov.uk/grown-ups/professionals/ciaf/resources-for-assessing-child-refusal-resistance/> Cyrchwyd: 20.01.19

Doughty, J. Maxwell, N. a Slater, T. 2018. *Review of research and case law on parental alienation*. Ar gael yn: <http://orca.cf.ac.uk/112511/> Cyrchwyd: 20.01.19

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. 2017. *Family Procedure Rules 2010 Practice Direction 12J* Ar gael yn: https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_12j Cyrchwyd: 20.01.19

Neilson, L. C. 2018. *Parental Alienation Empirical Analysis: Child best interests or parental rights?* Ar gael yn: <http://www.fredacentre.com/wp-content/uploads/2018/02/Parental-Alienation-Linda-Neilson.pdf> Cyrchwyd: 20.01.19

The Transparency Project. 2018. *Making sense of parental alienation*. Ar gael yn: <http://www.transparencyproject.org.uk/making-sense-of-parental-alienation-part-1/> Cyrchwyd: 20.01.19

Llywodraeth Cymru. 2018 *Minister sets out Welsh Government’s approach to parental alienation*. Ar gael yn: <https://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2018/parents/?lang=en> Cyrchwyd: 20.01.19



CASCADe

Children's Social Care
Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant



ExChange

Building Better Social Care
in Wales
Adeiladu Gofal Cymdeithasol
Gwell yng Nghymru

**CARDIFF
UNIVERSITY**

**PRIFYSGOL
CAERDYDD**

School of
Social Sciences

Ysgol y Gwyddorau
Cymdeithasol

**CARDIFF
UNIVERSITY**

**PRIFYSGOL
CAERDYDD**